

Y Diweddaraf – Prosiect Cymunedol Menter Gymdeithasol Capel Bethel Cam un – ymgynghoriad cymunedol a phrosiect dichonoldeb

Bu inni gynnal ymgynghoriad cymunedol cychwynnol ar Fedi'r 10^{fed} 2022, gyda'r nod o bennu'r lefel o ddiddordeb a chymorth i barhau gyda'r prosiect. Daeth oddeutu 40 o bobl ar y diwrnod ac mae poblogaeth Dolwyddelan yn oddeutu 470 felly mae hynny'n oddeutu 9% o'r gymuned.

Cafodd yr adborth a'r awgrymiadau eu rhannu'n wahanol themâu, dyma grynodedb isod;

Categori	Sylwadau enghreifftiol
Anghenion Llety	Tai fforddiadwy, tai gwarchod, gwella edrychiad yr adeilad presennol.
Gweithgareddau a chlybiau	Clybiau gweithgareddau awyr agored, clwb darllen, dosbarthiadau celf, crefft, coginio a chadw'n heini.
Cymorth busnes	Hyfforddiant, gofod arddangos / gwerthu, gofod gweithio ar gyfer y rheiny sy'n gweithio o adref.
Arlwyo	Caffi neu ystafell de fach.
Gofod cymunedol	Gofod cynnes, gofod cyfarfod / cymdeithasol, mynediad / cymorth i bobl anabl, gwasanaethau cymorth, ffeirio llyfrau / llyfrgell.
Hanes a diwylliant	Amgueddfa ar gyfer diwylliant, hanes ac achau.
Ieuenctid	Cyfleusterau i bobl ifanc, plant cyn oedran ysgol ac oedran ysgol.

Yn ychwanegol i'r adborth hwn, bu i grŵp o bobl fynegi diddordeb mewn ffurfio grŵp llywio i gyflawni cam un, sef ymgynghoriad cymunedol cyflawn ac astudiaeth dichonoldeb. Bydd gofyn i'r grŵp gaffael cyllid grant, (gyda chymorth Menter Siabod) er mwyn cyflogi ymgynghorydd i gyflawni'r gwaith hwn.

Mae Grŵp Cynefin wedi cytuno i weithredu fel partner strategol drwy gynnig cymorth gan weithiwr prosiect a chyfraniad ariannol tuag at yr ymdrechion codi arian i gynnal yr ymgynghoriad. Mae Grŵp Cynefin wedi gweithredu fel partner strategol ar brosiectau ledled Gogledd Cymru www.grwpcynefin.org/en/more-than-housing/supporting-the-community/

Mae'r grŵp llywio wrthi'n ceisio am gyllid i benodi ymgynghorydd. Yn sgil adborth ar ôl yr ymgynghoriad cychwynnol, rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth anghenion tai fel rhan o'r ymgynghoriad. Rydym yn rhagweld hefyd y bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cyfrannu tuag at lunio cynllun cymunedol ar gyfer y pentref. Bydd hyn yn ei dro yn help i lywio gwaith cynllunio ar gyfer y pentref. Bydd hyn yn ei dro yn help i lywio gwaith cynllunio ar gyfer Cyngor Cymuned Dolwyddelan a mudiadau eraill sydd â diddordeb.

Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio ymgyswrttu gyda'r gymuned bresennol, gan ganolbwyntio ar gryfderau ac asedau cyfredol y mae modd eu hategu, gan